# Agenda - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Tachwedd 2018

Amser: 09.15

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Bethan Davies**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6372

SeneddCyllid@cynulliad.cymru

**Penderfynodd y Pwyllgor ar 21 Tachwedd 2018 i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.15)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(09.15) (Tudalennau 1 - 5)

**2.1 PTN1 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid: Cyllideb y DU ar gyfer yr Hydref 2018 - Arian canlyniadol i DEL Cymru - 19 Tachwedd 2018**

(Tudalennau 6 - 9)

**2.2 PTN2 - Llythyr gan Gomisiwn y Cynulliad: Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2018 - 20 Tachwedd 2018**

(Tudalennau 10 - 11)

**2.3 PTN3 - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid - Treth Tir Gwag - 20 Tachwedd 2018**

(Tudalen 12)

## 3 Y Model Buddsoddi Cydfuddiannol: Sesiwn Briffio Technegol

(09.15-10.15) (Tudalennau 13 - 15)

Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru, Llywodraeth Cymru

Steve Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Arloesol, Llywodraeth Cymru

Papur 1 – Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau – Cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith mawr – y Model Buddsoddi Cydfuddiannol – 18 Hydref 2018

## 4 Bil Awtistiaeth (Cymru) – trafod yr adroddiad drafft

(10.15–10.30) (Tudalennau 16 – 30)

Papur 2 – Adroddiad drafft

## 5 Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Trafod y gwelliannau arfaethedig ar gyfer Cyfnod 2

(10.30–11.15) (Tudalennau 31 – 133)

Papur 3 – Bil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru): Trafod y gwelliannau arfaethedig ar gyfer Cyfnod 2

## 6 Goblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sydd i ddod

(11.15–11.30) (Tudalennau 134 – 136)

Papur 4 – Goblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru) sydd i ddod

## 7 Ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol

(11.30–11.45) (Tudalennau 137 – 146)

Papur 5 – Ariannu cyrff a ariennir yn uniongyrchol

## 8 Trafod y flaenraglen waith

(11.45–12.00) (Tudalennau 147 – 150)

Papur 6 – y flaenraglen waith: tymor y gwanwyn 2019

## 9 Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018

(12.00–12.05)

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Tachwedd 2018

Amser: 09.06 - 11.41

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5140

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC |
| Tystion: | Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Cymru<br>Sara Jones, Consortiwm Manwerthu Cymru<br>Joshua Miles, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru<br>Cathy Madge, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Bethan Davies (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

### 2.1 PTN1 - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - P-05-840 Cyllid Teg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a phob Awdurdod Lleol arall - 6 Tachwedd 2018

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: Sesiwn dystiolaeth 8 (Panel twf economaidd)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Joshua Miles, Rheolwr Polisi, FSB Cymru; a Sara Jones, Pennaeth Consortiwm Manwerthu Cymru.

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: Sesiwn dystiolaeth 9 (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru)

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru; a Cathy Madge, Arweinydd Ysgogi Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

## 7 Amcangyfrif Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019-20: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

## 8 Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019-20: Trafod yr adroddiad drafft

8.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr adroddiad â rhai mân newidiadau.

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 15 Tachwedd 2018

Amser: 13.36 - 15.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5398

# Cyfarfod cydamserol

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Llyr Gruffydd AC (Cadeirydd)<br>Jane Hutt AC<br>Nick Ramsay AC<br>Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Suzy Davies AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Julie Morgan AC<br>John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Ruth Coombs, Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol<br>Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br>Rachel Thomas, Comisiynydd Plant Cymru<br>Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid<br>Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip<br>Andrew Jeffreys, Dirprwy Gyfarwyddwr, Buddsoddi Cyfalaf |

| | |
|---|---|
| | Strategol, Llywodraeth Cymru<br>Paul Dear, Llywodraeth Cymru<br>Matt Wellington, Llywodraeth Cymru<br>Anthony Jordan, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Georgina Owen (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd) |

## Cyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Aelodau i gyfarfod ar y cyd y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

## 2 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Asesiadau effaith sy'n cyd-fynd â'r cyllidebau drafft (Sesiwn dystiolaeth 1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ruth Coombs, Pennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yng Nghymru;
- Yr Athro Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru; a
- Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Comisiynydd Plant Cymru.

## 3 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Asesiadau effaith sy'n cyd-fynd â'r cyllidebau drafft (Sesiwn dystiolaeth 2)

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid;
- Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip;

- Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr, Trysorlys, Llywodraeth Cymru;
- Matt Wellington, Pennaeth Cofnodi a Dadansoddi y Rhaglen Lywodraethu, Llywodraeth Cymru;
- Paul Dear, Pennaeth Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru; ac
- Anthony Jordan, Pennaeth Gweithredu Rhaglen Ddeddfwriaethol, Llywodraeth Cymru.

3.2 Cafodd yr Aelodau gopi caled gan Arweinydd y Tŷ o drosolwg o broses Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20: Asesiadau effaith sy'n cyd-fynd â'r cyllidebau drafft (Trafod y dystiolaeth)

5.1 Cytunodd yr Aelodau a oedd yn cynrychioli pob un o'r tri phwyllgor y byddant yn trafod y dystiolaeth a gasglwyd yn y sesiwn hon ac yn cynhyrchu allbwn ar y cyd maes o law i lywio Cyllideb Ddrafft 2020-21 Llywodraeth Cymru a chyllidebau drafft yn y dyfodol.

**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffudd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

19 Tachwedd 2018

Annwyl Llyr,

**Cyllideb Mawrth 2018 y DU - Symiau canlyniadol ar gyfer DEL Cymru**

Yn unol â'r drefn arferol, ysgrifennaf atoch i roi gwybod ichi am symiau canlyniadol Barnett ar gyfer Cymru o ganlyniad i gyllideb Llywodraeth y DU ar gyfer yr Hydref.  Mae'r ffigurau hyn yn gorfod cael eu cadarnhau yn y llythyr ynglŷn â'r setliad oddi wrth Drysorlys EM, sydd heb ddod i law hyd yn hyn.

Yn Atodiad A, fe welwch restr fanwl o holl symiau canlyniadol Barnett, ynghyd â chyfansymiau cyfanredol ar gyfer pob dosbarth gwariant yn y blynyddoedd ariannol 2018-19 i 2020-21.

Rwyf yn gallu cadarnhau lefel y cyllid ychwanegol y bydd Cymru'n ei gael o ganlyniad i weithredu'r fframwaith cyllidol. Yn dilyn y dyraniadau ychwanegol yng Nghyllideb y DU ar gyfer yr Hydref, mae lluosydd Barnett 105 y cant yn rhoi £25 yn ychwanegol i Gymru, yn 2018-19 a £74m dros y cyfnod a gynhwysir gan Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 (refeniw ychwanegol o £46m a chyfalaf o £53m).

Cofion gorau,



**Mark Drakeford AC / AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.  Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh.  Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Atodiad A - Effaith Cyllideb Hydref 2018 Llywodraeth y DU ar DEL Cymru

### Tabl 1. Ffigurau Cyfanredol Symiau Canlyniadol Barnett

| Dosbarth Gwariant | £000oedd[1] | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
| DEL Adnoddau | 63,111 | 423,351 | - | 486,462 |
| DEL Cyfalaf (Cyffredinol) | 52,596 | 2,591 | 4,715 | 59,902 |
| DEL Cyfalaf (Trafodiadau Ariannol Ad-daladwy) | - | - | 8,497 | 8,497 |
| **Cyfanswm DEL** | **115,707** | **425,942** | **13,212** | **554,861** |

### Tabl 2 - Symiau Canlyniadol Barnett

| Mesur | Dosbarth Gwariant[2] | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
| **Ardrethi Busnes** | | | | |
| Disgownt manwerthu (Cymorth | RDEL | - | 16,110 | - |
| Disgownt manwerthu (Cyfran | RDEL | - | 9,855 | - |
| Diwygio pecyn AB2017 (Cyfran Ganolog) | RDEL | 27,801 | 2,220 | - |
| Diwygio pecyn AB2017 (Cymorth ALl) | RDEL | 10,976 | 7,612 | - |
| | | | | |
| **Iechyd a Gofal Cymdeithasol** | | | | |
| Setliad y GIG | RDEL | - | 364,741 | - |
| ariennir fel arall trwy trosglwyddiad sylfaenol parhaus o gyllidebau DH | RDEL | - | (31,865) | - |
| | | | | |
| **Cludiant** | | | | |
| Cynnal a Chadw Ffyrdd Lleol | CDEL | 24,784 | - | - |
| Ansawdd Aer - Cronfa Weithredu | CDEL | 372 | 384 | - |
| Birmingham - Dinas Symudedd y Dyfodol | RDEL | - | 118 | - |
| Birmingham - Dinas Symudedd y Dyfodol | CDEL | - | 295 | 295 |
| | | | | |
| **Addysg** | | | | |

[1] Mae'r ffigurau'n amodol ar dalgrynnu gan Drysorlys EM.
[2] DEL Adnoddau (RDEL), DEL Cyfalaf (CDEL) (cyffredinol), DEL Cyfalaf (FT) (Trafodiadau Ariannol Ad-daladwy)

| Mesur | Dosbarth Gwariant[2] | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **2018-19** | **2019-20** | **2020-21** |
| Prentisiaethau - Lleihau tâl cyd-fuddsoddi ar gyfer BBaChau | RDEL | - | 1,180 | - |
| Gofal Cymdeithasol Plant | RDEL | - | 2,343 | - |
| Peilot rhanbarthol o hyfforddiant yn y gwaith i bobl ifanc | RDEL | - | 207 | - |
| Cynllun Ailhyfforddi | RDEL | - | 236 | - |
| Cynllun Ailhyfforddi | CDEL | - | 354 | 354 |
| Sgiliau Rhanbarthol i bobl hunangyflogedig | RDEL | - | 295 | - |
| Cyfalaf Ysgolion | CDEL | 23,604 | - | - |
| | | | | |
| **BEIS (yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)** | | | | |
| Gwella rheoli trwy gefnogi rhwydweithiau cymheiriaid i gymheiriaid | RDEL | - | 1,180 | - |
| Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth | CDEL | - | 59 | 177 |
| Pecyn Menter | RDEL | - | 649 | - |
| Ardaloedd Menter Prifysgolion | RDEL | 295 | - | - |
| | | | | |
| **DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig)** | | | | |
| Ansawdd Aer - Cronfa Weithredu | RDEL | 159 | 266 | - |
| Y Gronfa Gwastraff Bwyd | RDEL | - | 885 | - |
| Neuaddau Pentref | RDEL | 177 | - | - |
| Clirio Safleoedd Tirlenwi | RDEL | - | 295 | - |
| Plannu Coed Trefol | RDEL | - | 41 | - |
| Plannu Coed Trefol | CDEL | - | 171 | 171 |
| Cyllid Arloesi Deunydd Plastig a Gwastraff | CDEL | - | 590 | - |
| | | | | |
| **MHCLG (y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol)** | | | | |
| Corfforaethau Datblygu | RDEL | - | 118 | - |
| Grant Cyfleusterau i'r Anabl | CDEL | 3,246 | - | - |
| Dyfodol Help i Brynu Benthyciad Ecwiti | FT | - | - | 8,497 |
| Strydoedd Mawr | CDEL | - | 30 | 3,334 |

| Mesur | Dosbarth Gwariant[2] | £000oedd | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
| Strydoedd Mawr | RDEL | 99 | 797 | - |
| Tai Strategol | RDEL | - | 236 | - |
| Fforymau Cymdogaethau | RDEL | - | 165 | - |
| Gofal Cymdeithasol (2018-19) | RDEL | 14,162 | - | - |
| Gofal Cymdeithasol (2019-20) | RDEL | - | 38,357 | - |
| | | | | |
| **DCMS (Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon)** | | | | |
| Dinas Ddiwylliant Coventry | CDEL | - | 502 | - |
| Gwersylloedd Sgiliau Digidol | RDEL | - | 177 | - |
| Strydoedd Mawr treftadaeth | CDEL | - | 207 | 384 |
| Strydoedd Mawr Treftadaeth | RDEL | - | 89 | - |
| **Arall** | | | | |
| Ailbroffil o ailgostio BRR 2017-18 | RDEL | 12,940 | - | - |
| Ailbroffil o Arbedion yr Adolygiad o Effeithlonrwydd | RDEL | (3,570) | - | - |
| | | | | |
| **Ariennir o Gronfeydd Wrth Gefn** | | | | |
| Ambiwlans Awyr | CDEL | 590 | - | - |
| Prentisiaethau - Capasiti ar gyfer IFA | RDEL | - | 295 | - |
| Prentisiaethau - Hyblygrwydd yn y Gadwyn Gyflenwi | RDEL | - | 5,311 | - |
| Estyn y rhaglen meysydd brwdr | RDEL | - | 59 | - |
| Canolfan Arwain y Gwasanaeth Cyhoeddus | RDEL | - | 413 | - |
| Eden Project (Gogledd) – Cronfa Wrth Gefn | RDEL | 12 | | - |
| Rheoli Perygl Llifogydd - Arian IPT | RDEL | | 395 | - |
| Prosiect Addysg yr Holocost | RDEL | - | 100 | - |
| Athrawon Mathemateg a Ffiseg | RDEL | - | 295 | - |
| Tai - Gorsaf Toton HS2 | RDEL | - | 118 | - |
| Lles Glowyr | RDEL | 59 | 59 | - |
| | | | | |
| **Cyfanswm y Newidiadau** | | **115,707** | **425,942** | **13,212** |

Eitem 2.2

**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Llyr Gruffydd
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Drwy e-bost

20 Tachwedd 2018

**Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) Comisiwn y Cynulliad 2018**

Annwyl Llyr,

Yn ymddangosiadau'r Comisiwn gerbron y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddar, gofynnwyd i mi am y posibilrwydd o gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES). Rwyf nawr yn ysgrifennu i gadarnhau, yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd, y cytunodd y Comisiwn i gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol (VES) i'r holl staff.

Bydd y Cynllun Ymadael Gwirfoddol yn helpu i sicrhau y gall y Comisiwn barhau i ddarparu'r sgiliau, yr arbenigedd a'r gallu angenrheidiol i gefnogi'r Cynulliad drwy'r heriau penodol a ddaw yn sgîl Brexit a Newid Cyfansoddiadol, tra'n parhau i weithio, cyhyd ag sy'n bosibl, o fewn cap cyffredinol y sefydliad o 491 o swyddi.

I grynhoi, nodau'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol fydd:

- caniatáu i'r Comisiwn ymateb i newidiadau yn y gofynion o ran sgiliau ac arbenigedd;
- hwyluso newid sefydliadol, gan gynnwys o fewn timau penodol;
- gwella effeithlonrwydd y gweithlu; a
- phan fo hynny'n bosib, darparu arbedion hirdymor ac osgoi cynyddu maint y sefydliad wrth ddiwallu anghenion o ran adnoddau.

Rydym yn bwriadu lansio'r Cynllun Ymadael Gwirfoddol ar 22 Tachwedd 2018, a bydd y cyfle i wneud cais yn agored tan ddechrau mis Ionawr 2019. Bydd y cynllun yn cael ei gynnal yn unol â rheolau'r Swyddfa Gabinet / Trysorlys a bydd ganddo feini prawf asesu a

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
manon.antoniazzi@cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
manon.antoniazzi@assembly.wales
0300 200 6230

phrosesau penderfynu cadarn. Byddwn yn cymryd i ystyriaeth lawn yr argymhellion sy'n deillio o'r adolygiad archwilio mewnol o'n cynlluniau blaenorol ac o adolygiad ehangach Swyddfa Archwilio Cymru o gynlluniau ymadael. Mae ochr yr Undebau Llafur (TUS) wedi cael gwybod am ein bwriad i gynnig Cynllun Ymadael Gwirfoddol, a bydd yn cael ei wahodd i arsylwi ar waith y panel dethol.

Ystyriwyd y goblygiadau ariannol yn ofalus ac rydym wedi nodi cyllideb o hyd at £800,000. Gallaf gadarnhau y gellir cyllido'r gyllideb hon o danwariant o gyllideb staffio weithredol y Comisiwn, sydd, i raddau helaeth iawn yn deillio o lefelau uwch na'r arfer o drosiant staff. Mae'r gyllideb hon yn debyg i'r gyllideb o £850,000 a bennwyd ar gyfer Cynllun Ymadael Gwirfoddol 2015, a neilltuwyd £650,000 o hon. Pennodd Llywodraeth Cymru gyllideb o £5.5 miliwn ar gyfer ei Chynllun Ymadael Gwirfoddol diweddaraf.

Yn olaf, bydd costau'r cynllun yn cael eu cyhoeddi fel rhan o’r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2018-19, ym mis Gorffennaf 2019.

Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

**Manon Antoniazzi**

**Prif Weithredwr a Chlerc**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.

**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-L/MD/0670/18

20 Tachwedd 2018

Annwyl gyfaill,

Fel y gwyddoch, mae'n fwriad gen i roi prawf ar fecanwaith Deddf Cymru 2014 drwy geisio cael datganoli'r cymhwysedd ar gyfer treth ar dir gwag. Cyn proses ddiwygiedig Rheol Sefydlog 27 ar gyfer craffu ar Orchmynion adran 116C, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi gwybod i'r Cynulliad am hynt y gwaith.

Mae fy swyddogion yn dechrau ar drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth y DU ar Orchymyn Cyfrin Gyngor drafft i roi effaith gyfreithiol i'r trosglwyddo cymhwysedd. Unwaith y bydd y trafodaethau hyn wedi cyrraedd cyfarfod o Gyd-bwyllgor y Trysorlysoedd, byddaf yn rhoi gwybod ichi beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf yn unol â'm haddewid.

Cofion gorau,

Mark

**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

**National Assembly for Wales**
Economy, Infrastructure and Skills Committee



Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd Dros Dro'r Pwyllgor Cyllid

18 Hydref 2018

Annwyl Llyr,

**Cyllid ar gyfer prosiectau seilwaith mawr - Model Buddsoddi Cydfuddiannol**

Yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2018, cafodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau wybodaeth gan yr Athro Gerry Holtham am gyllid ar gyfer prosiectau seilwaith a gan swyddogion Llywodraeth Cymru am y Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM). Rwy'n ysgrifennu atoch i dynnu sylw at rai o bryderon y Pwyllgor yn dilyn y sesiynau hynny.

Mae'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r defnydd a wneir o'r Mentrau Cyllid Preifat a Phartneriaethau Cyhoeddus-Preifat yn y gorffennol, ac yn ceisio canfod lle gellir trosglwyddo risg yn effeithiol a lle na ellir gwneud hynny. Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed na fyddai gwasanaethau 'meddal' yn cael eu cynnwys mewn Model Buddsoddi Cydfuddiannol ac y bydd darpariaeth ar gyfer rheoli contractau gweithredol yn cael ei chynnwys yn y prosiect o'r cychwyn. Yn ogystal, dylai cyfres o gontractau safonol sy'n anelu at sicrhau buddion cymunedol ac unrhyw arian ychwanegol ar enillion ail-ariannu sicrhau gwelliannau pellach a mwy o werth am arian na modelau blaenorol.

Er bod cwestiynau o hyd ynghylch argaeledd staff medrus a phrofiadol a all gyflawni'r rheolaeth gwell sydd ei hangen ar gontractau o ran llwyddiant y model, cytunodd y Pwyllgor ei bod yn ymddangos fod y Model Buddsoddi Cydfuddiannol,

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddESS@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddESS
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddEIS@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddEIS
0300 200 6565

wedi cael ei ystyried yn drylwyr ac yn un sy'n sicrhau gwelliannau sylweddol o gymharu â modelau blaenorol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn pryderu am y cyd-destun y defnyddir y Modelau hyn. Clywodd y Pwyllgor y gellid defnyddio'r model i gyflawni adrannau pump a chwech o'r A465, canolfan ganser Felindre, a Band B o raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Ymddengys bod ariannu'r prosiectau hyn yn y modd hwn yn awgrymu na wneir penderfyniadau ariannu yng nghyd-destun ymagwedd strategol, cynlluniedig tuag at ddarparu seilwaith.

Ni fyddai unrhyw Lywodraeth yn benthyca pe bai ganddi ddigon o gyllideb i gyflawni ei chynlluniau, ond os yw ei huchelgais y tu hwnt i'w gallu o ran cyfalaf, a bod achos cryf dros gyflawni'r uchelgeisiau hynny, yna mae opsiynau benthyg darbodus ar gael. Disgrifiodd yr Athro Holtham fod defnyddio bondiau'r Llywodraeth yn llawer rhatach na'r arian y gellid ei godi gan fuddsoddwyr preifat, yn enwedig ar gyfer prosiectau mwy cymhleth neu risg uwch. Uchafswm y cyllid ar gyfer giltiau o'r fath yw £1 biliwn yng Nghymru, ond nid oes gan y Pwyllgor ymdeimlad o ymholiadau diweddar bod yr opsiwn ariannu hwn yn cael ei ystyried fel rhan o drafodaeth ehangach ynghylch y math cywir o fuddosddiad ar gyfer cyflwyno rhan o raglen o brosiectau cynlluniedig. Roedd yn ymddangos, yn hytrach, bod y Modelau hyn i'w defnyddio pan fydd prosiectau o faint digonol yn dod yn flaenoriaeth i'w cyflenwi. O gofio ei bod yn bosibl gweithredu llawer o agweddau cadarnhaol y Modelau - gwell rheolaeth o gontractau; buddion cymunedol a mabwysiadu codau ymarfer amgylcheddol a chyflogaeth - hefyd drwy gaffael traddodiadol, ymddengys nad yw'n ymarferol cyflwyno prosiectau cymhleth fel band B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif drwy'r Modelau hyn, pan fyddai opsiynau ariannu eraill, rhatach, ar gael.

Bydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau yn parhau i graffu ar ariannu prosiectau seilwaith mawr, ond mae'n ymddangos bod pwynt o egwyddor ariannol ehangach i'w ystyried. Felly, mae'r Pwyllgor wedi gofyn i mi dynnu eich sylw at y pryderon hyn a gofyn a oes gennych unrhyw gynlluniau i graffu ar strategaeth ariannu cyfalaf Llywodraeth Cymru.

Gall Clerc y Pwyllgor ddarparu gwybodaeth gefndirol bellach am y materion hyn pe byddai hynny'n ddefnyddiol.

Diolch am ystyried y mater hwn. Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb maes o law.

Yn gywir,



Russell George
Cadeirydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon